# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Dysynni




## Crynodeb (Ionawr 2022)

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **10** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Dysynni.

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau o Fro Dysynni yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 10 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 7 |
| Ardal ddiogel a saff | 6 |
| Aer glan / dim llygredd | 3 |
| Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell | 3 |
| Cae chwarae i blant | 2 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 3 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 1 |
| Lle da i fagu teulu | 1 |
| Darpariaeth / cyflwr tai | 1 |
| Lwcus o'r twristiaid sy'n rhoi bywoliaeth i bobl leol | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus dda | 1 |
| Ffyrdd da | 1 |

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Dysynni yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Diffyg tai fforddiadwy ac addas i bobl leol | 7 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd – ysbytai a meddygfa | 7 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 7 |
| Diffyg darpariaeth gofal a gweithgareddau i bobl hŷn | 5 |
| Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau | 4 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 4 |
| Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal / dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol | 4 |
| Prinder tai o safon i'w rhentu | 4 |
| Pryder am Gynllunio Tai / Cynllun Datblygu Lleol | 3 |
| Pellter daearyddol o bob man | 3 |
| Cau ysgolion cynradd yn fygythiad | 2 |
| Problemau ac effaith gor-dwristiaeth | 2 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 2 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 2 |
| Llifogydd | 2 |
| Blerwch a chyflwr cyffredinol yr ardal | 2 |
| Costau byw uchel | 1 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir | 1 |
| Dim Canolfan Ailgylchu yn yr ardal | 1 |
| Cyflwr toiledau cyhoeddus | 1 |
| Diffyg gweithwyr efo sgiliau e.e. trydanwyr, adeiladwyr | 1 |
| Pobl leol ddim yn ymuno â Phwyllgorau ac ati | 1 |
| Ymddygiad bygythiol yn erbyn staff siopau dros Covid-19 | 1 |
| Datblygiadau yn cymryd amser hir i wireddu | 1 |
| Dim digon o dai Cymdeithasol yn yr ardal | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma’r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Dysynni am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 5 |
| Sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | 5 |
| Rhagor o adnoddau iechyd safonol ac ataliol | 4 |
| Cynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau / cefnogi pobl ifanc | 3 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 3 |
| Canolfan Ailgylchu yn Nhywyn | 2 |
| Angen adnoddau yn lleol - siopau bwyd a chaffi | 2 |
| Rhagor o gyfleoedd cymdeithasu e.e. Clybiau | 2 |
| Darpariaeth gofal - angen rhagor o ofalwyr | 2 |
| Gwell darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus | 2 |
| Moderneiddio’r toiledau cyhoeddus | 1 |
| Gwella darpariaeth twristiaeth a gweithgareddau ei ymwelwyr e.e.fel Bounce Below | 1 |
| Cefnogaeth i'r sector amaethyddol | 1 |
| Ardal chwarae newydd i blant | 1 |
| Mater Gwesty’r Corbett yn Nhywyn wedi ei ddatrys | 1 |
| Datblygu hwb cymunedol canolog i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau | 1 |
| Mwy o gyswllt efo Cyngor Gwynedd - syrjeri fisol gyda swyddogion | 1 |
| Cystadleuaeth ‘Best kept village’ yn dod yn ôl i Wynedd. | 1 |
| Is-adeiladaeth band eang | 1 |
| Gwell rheolaeth ar ail dai | 1 |
| Gwell rheolaeth ar dwristiaeth | 1 |
| Gwell cyfathrebu gan gyrff cyhoeddus | 1 |
| Cefnogi busnesau a chreu ardal menter | 1 |
| Rhagor o dai cymdeithasol | 1 |
| Gwella'r ffyrdd rhwng Tywyn ac Aberdyfi | 1 |
| Gwell perthynas efo Prifysgol Aberystwyth | 1 |
| Cyd-weithio er mwyn gwella'r ardal | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

**5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?**

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Dysynni:

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Tywyn Chamber of Tourism & Commerce
- Y Gymdeithas Hanes
- Bwrdd Iechyd
- Parc Cenedlaethol
- Merched y Wawr
- Ysgolion lleol
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Sector breifat
- Rheilffordd Tal-y-llyn
- Clwb Rotari
- Greener Tywyn
- Pwyllgor y Ganolfan
- Clwb Pêl-droed
- Prifysgol Aberystwyth

**5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Dysynni:

- Ymgynghori ar y newid i drefniadau gweithwyr gofal cartref
- Ymgynghori efo pobl ifanc am y parc sglefrio
- Cynllun Cymdogaeth Aberdyfi

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi ym Mro Dysynni:**

- Ystyried newid ffiniau'r ardal adfywio - Mi fydd Bryncrug, Abergynolwyn a Llanegryn yn dod o dan un cynghorydd. Teimlo fod achos i greu ardal efo'r 3 pentref yna - yn hytrach na Dysynni i gyd yn ehangach - gan fod sefyllfa, amgylchiadau, demograffeg y llefydd yma mor wahanol i Dywyn ac Aberdyfi.